Medi – Rhagfyr 2009

Oriel Wrecsam
Taflen Newyddion Addysg

Arddangosfa

allan o'r cyffredin/anghyffredin:

ffotograffau siapaneaidd cyfoes

5 Medi – 17 Hydref
Cip Ymlaen Llaw Gwener 4 Medi 7 - 9pm

Arddangosfa o waith un ar ddeg ffotograffydd o Japan. Wedi'i dynnu ynghyd yn wreiddiol gan Kasahara Michiko o Amgueddfa Ffotograffiaeth Fetropolitanaidd Tokyo, mae hon yn arddangosfa drawiadol o weledigaeth ffotograffig sy'n rhoi mewnwelediad newydd i wylwyr i ddiwylliant cyfoes Japan.

Rydym yn falch iawn o gyflwyno'r arddangosfa gyffrous hon ynghyd â detholiad o weithdai ymarferol addas i bob oed, yn enwedig myfyrwyr coleg a phrifysgol.

Arddangosfa deithiol o Sefydliad Japan yw *allan o'r cyffredin/anghyffredin*

Sugiura Kunié,
Yayoi Kusama A p, o'r gyfres *Papurau'r Artist*, 2003
(manylyn)

Gweithgareddau ar Gael

Pysgod Hedegog o Japan

Creu Barcudiaid Carp Japaneaidd hardd i fynd adref ar ddiwedd y sesiwn. Addaswyd ar gyfer CA 1 / 2 / 3

Yr Hunan fel Gwrthrych

Gweithdy sy'n edrych ar syniad yr 'hunan' mewn portreadau. Cewch edrych ar yr arddangosfa, trafod syniadau a chreu eich hunanbortread ffotograffig eich hun. CA 4 / AS / A2 / Colegau (mae modd ei addasu ar gyfer grwpiau eraill)

Sawada Tomoko, o *glawr* y gyfres, 2002 (manylyn)

Beth sy'n gwneud delwedd yn *hynod*?

Wedi cael ysbrydoliaeth o'r arddangosfa, bydd myfyrwyr yn cael cyfle i gyfansoddi eu delweddau ffotograffig *hynod* eu hunain. Sylfaen / Safon Gradd

Arddangosfa

Ground:

Curadur Tim Davies

24 Hydref – 12 Rhagfyr
Cip Ymlaen Llaw Gwener 23 Hydref 7 - 9pm

Mae Tim Davies, artist a churadur Cymreig, wedi dewis gweithiau pump o artistiaid ifanc sy'n gweithio yn Ne Cymru ar hyn o bryd: Jonathan Anderson, Hannah Downing, Alex Duncan, Fern Thomas, Hannah Thomas. Mae'r arddangosfa'n dangos amrywiaeth o waith mewn gwahanol gyfryngau gan gynnwys paentio, ffotograffiaeth, fideo a gosodiad cerfluniol. Ffynhonnell ysbrydoliaeth sylweddol i artistiaid ifanc uchelgeisiol!

Jonathan Anderson, *Tai Tywod*, 2008

Gweithgareddau ar Gael

Beth welwch chi?

Gan ddefnyddio ffenestr a wnaed â llaw troi'r olygfa a ddewiswch yn gampwaith lliwgar trwy ddefnyddio ffotograffau a gludwaith. Lluniwyd ar gyfer CA 1 / 2 ond mae modd ei addasu i'r Cyfnod Sylfaen

Arsylwadau

Edrych ar fywyd yn wahanol yn y gweithdy lluniadu a phaentio hwn. Cewch edrych ar yr arddangosfa a chreu eich arsylwadau celfyddydol eich hun. Addaswyd ar gyfer pob oed a gallu

Ailddarganfod

Gan ddefnyddio deunyddiau a ailgylchwyd bydd myfyrwyr yn creu gosodiadau penodol i safle sy'n trawsffurfio pethau pob dydd yn weithiau celfyddydol. Colegau / Sylfaen / Safon Gradd

Alex Duncan, *'ffendio' dail*, 2008

Arddangosfa

Gwneud Argraff

Printiau Cyfoes Gwreiddiol o Gymru

19 Rhagfyr '09 – 13 Chwefror '10
Cip Ymlaen Llaw Gwener 18 Rhagfyr 7 - 9pm

I ddathlu ei phen blwydd yn 70 gomisiynodd Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru bortffolio o brintiau gan artistiaid cyfoes blaenllaw Cymru. Mae'r arddangosfa hon yn cynnwys gwaith Laura Ford, oedd yn cynrychioli Cymru yn Biennale di Venezia 2003, David Nash, y cerflunydd enwog, a'r arlunydd Shani Rhys James.

Shani Rhys James, *Y Drych Llaw*, 2007

Gweithgareddau ar Gael

Hud Anifeiliaid

Creu printiau rhyfedd a rhyfeddol o anifeiliaid gan ddefnyddio ein gwasg fechan. Cyfnod Sylfaen

Llên gwerin a straeon tylwyth teg

Creu eich stori dylwyth teg eich hun yn y gweithdy lluniadu, paentio a gludwaith hwn. Dylunio bwrdd stori a defnyddio eich dychymyg i ddweud stori hudol. Addaswyd ar gyfer CA 1 / 2 / 3

Aderyn sydd yna?

Gweithdy gwneud printiau sy'n annog cyfranogwyr i arbrofi gyda ffurf, lliw a gwneud marciau mewn print. CA 4 / AS / A2 / Colegau

Os hoffech gael mwy o wybodaeth ynghylch unrhyw un o'r gweithdai a restrwyd cysylltwch â'r Swyddog Cynorthwyol Celfyddydau Gweledol am gynllun manwl.

Gwybodaeth Gyffredinol am Archebu

Mae croeso i fyfyrwyr o holl sefydliadau addysgol a grwpiau ymweld ag unrhyw un o'r arddangosfeydd sydd i ddod. Gallai eich ymweliad gynnwys taith o gwmpas yr arddangosfa, sgwrs neu weithdy ymarferol. Artistiaid (os ydynt ar gael) a'r Swyddog Cynorthwyol Celfyddydau Gweledol sy'n arwain y sesiynau.

Gall athrawon a thiwtoriaid ddod â grwpiau hefyd ar sail hunanddigonol am ddim. Mae tâl o £1.50 y disgybl am weithdai ymarferol.

Byddwn yn gweithio'n galed i ddarparu ar gyfer pob oed a gallu, ac mae modd addasu gweithdai a chylchdeithiau ar gyfer unrhyw ofynion arbennig.

Cysylltwch â'r Swyddog Cynorthwyol Celfyddydau Gweledol yn Oriel Wrecsam i drefnu lle.

Oriel Wrecsam
Ffordd Rhosddu
Wrecsam
LL11 1AU

01978 292093
oriel.wrecsam@wrexham.gov.uk
www.wrexham.gov.uk/arts

I'w rhoi yn eich dyddiadur

Arddangosfeydd nesaf yn Oriel Wrecsam

5 Medi – 17 Hydref
allan o'r cyffredin/anghyffredin
(Japan Foundation)

24 Hydref – 12 Rhagfyr
Ground: (Curadur Tim Davies))

19 Rhagfyr '09 – 13 Chwefror '10
Gwneud Argraff

Hydref Hanner tymor

Tynnu Lluniau gyda Goleuni
Mercher 28 Hydref 10 – 3pm
I blant 8 oed a hŷn
Mae artist Ben Davies yn ôl am ragor o hwyl gwneud ffilmiau! Cyflwyniad i dechnegau tynnu lluniau gyda goleuni a defnyddio ffotograffiaeth datguddio hir a goleuadau LED. Bydd cyfle i gyfranogwyr gynhyrchu ffotograffau 2D a dilyniannau byw byr. Peidiwch ag anghofio dod â'ch cinio! £6 yr un

Beth yw eich stori?
Llun 26 ac lau 29 Hydref 10 - 12 hanner dydd. I bawb 5 oed a hŷn (rhai dan 8 i ddod ag oedolyn i'w cynorthwyo) Archwilio'r arddangosfa, trafod syniadau a chreu eich llyfr lluniau stori eich hun gan ddefnyddio ffotograffau a dynnwyd ar y diwrnod a gludwaith lliwgar! Dan arweiniad y Swyddog Cynorthwyol Celfyddydau Gweledol. £3 yr un

Gwyliau'r Nadolig

Creadigaethau'r Nadolig
Llun 21 Rhagfyr 10 – 12 hanner dydd a 2 – 4 pm
I bawb 5 oed a hŷn (rhai dan 8 i ddod ag oedolyn i'w cynorthwyo)
Ymunwch â ni am hwyl y gwyliau! Cewch wneud eich cardiau, anrhegion ac addurniadau Nadolig eich hun i fynd adref. Dan arweiniad y Swyddog Cynorthwyol Celfyddydau Gweledol. £3.50 yr un

Gweithgareddau wythnosol rheolaidd

Dosbarthiadau Lluniadu'r Byw ar gyfer Oedolion
Pob Dydd Iau 7– 9pm
Dewch i ymarfer eich sgiliau lluniadu! Graham Nelmes, tiwtor profiadol, sy'n arwain y sesiynau. £4 yr un (£3 gostyngiadau)

Clwb Celf Dydd Sadwrn
Pob dydd Sadwrn yn ystod y tymor
10am – 12.30pm
I blant 8 – 12 oed.
£3 y plentyn

Os hoffech unrhyw fanylion ychwanegol cysylltwch â'r Swyddog Cynorthwyol Celfyddydau Gweledol, Lucia Fraser ar 01978 292093.